OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 993 (Cy. 174)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mehefin 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mehefin 2019* |
| *Coming into force - -* | *1 Medi 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 54(3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997(**1**) ac adrannau 30(1) a (2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**2**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a cychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2019.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2011" yw Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011(**4**).

### Trosiannol

**3.** Yn rheoliad 5(3) o Reoliadau 2011—

(**1**) 1997 p. 44. Diddymwyd adran 19 o ran Lloegr gan adran 66(1) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20). Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 19 gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a pharagraff 213 o Atodlen 30 iddi.

(**2**) 2002 p. 32.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 19 a 54 o Ddeddf Addysg 1997 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Neddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) O.S. 2011/1945 (Cy. 212), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/236 (Cy. 88) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

(a) yn is-baragraff (a), mae'r geiriau "', sef y targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol" i'w trin fel pe baent wedi eu hepgor ar gyfer y flwyddyn ysgol(**5**) 2019 i 2020; a

(b) yn is-baragraff (b), mae'r geiriau "sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny" i'w trin fel pe baent wedi eu hepgor ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019 i 2020.

**Diwygio**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau 2011 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniadau o "arholiad TGAU", "FfCC", "lefel FfCC", "TGAU", "trothwy lefel 1" a "trothwy lefel 2"; a

(b) hepgorer paragraff (2).

(3) Yn rheoliad 5—

(a) yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Y chwe chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol."; a

(b) hepgorer paragraff (5).

(4) Yn rheoliad 8, yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion" yw'r ganran sy'n cyflawni'r chwe chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliad 5(4)."

*Kirsty Williams*
5 Mehefin 2019 — Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

(**5**) Mae adran 56(2) o Ddeddf Addysg 1997 ("Deddf 1997") yn darparu bod rhaid i Ddeddf 1997 gael ei dehongli yn gytûn â Deddf Addysg 1996 ac felly mae i'r term "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru osod targedau sy'n ymwneud â pherfformiad yr ysgol a chyfraddau absenoldeb anawdurdodedig y disgyblion.

Mae rheoliad 5(4) o Reoliadau 2011 (*targedau perfformiad ar gyfer disgyblion a fydd ym Mlwyddyn 11*) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu osod targedau perfformiad ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol pedwar ym Mlwyddyn 11 (gweler Rheoliadau 2011 am ddiffiniadau o "Blwyddyn 11" a "disgyblion cyfnod allweddol pedwar"). Yn benodol, mae rheoliad 5 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu osod targedau mewn perthynas ag—

(a) tri chyflawniad i'w penderfynu gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion ("targedau nas pennir"); a

(b) y ganran o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n cyflawni'r trothwy lefel 1 a'r trothwy lefel 2 ("targedau a bennir").

O'r flwyddyn ysgol 2019/2020 ymlaen, a chan gynnwys y flwyddyn honno, ni fydd ysgolion yn defnyddio'r targedau a bennir. Yn lle hynny, bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion osod rhagor o dargedau nas pennir. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5(4) o Reoliadau 2011 er mwyn (rheoliad 4(3))—

(a) cynyddu nifer y targedau nas pennir o dri i chwech; a

(b) hepgor y gofyniad i osod y targedau a bennir.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011 er mwyn hepgor rhai diffiniadau nad ydynt ond yn berthnasol i'r targedau a bennir (rheoliad 4(2)).

Mae rheoliad 8 o Reoliadau 2011 (*cyhoeddi gwybodaeth*) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyhoeddi, yn adroddiad blynyddol yr ysgol, y ganran o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 sydd (gweler Rheoliadau 2011 am y diffiniad o "adroddiad blynyddol yr ysgol") (rheoliad 4(4))—

(a) yn cyflawni'r tri tharged nas pennir; a

(b) yn cyflawni'r targedau a bennir.

O ganlyniad i'r diwygiad i reoliad 5(4) o Reoliadau 2011, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio rheoliad 8(3) o Reoliadau 2011—

(a) fel bod rhaid i'r corff llywodraethu adrodd am y ganran o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n cyflawni'r chwe tharged nas pennir; a

(b) fel na fydd rhaid i'r corff llywodraethu adrodd mwyach am y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r targedau a bennir.

Bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cymryd effaith am y tro cyntaf yn y flwyddyn ysgol 2019 i 2020 ("y flwyddyn drosiannol"). Felly, ni fydd cyrff llywodraethu wedi gosod targedau yn y flwyddyn ysgol flaenorol sy'n gallu ffurfio'r sail ar gyfer eu targedau adolygedig a'u targedau terfynol yn y flwyddyn drosiannol. Bydd y targedau blaenorol wedi cael eu gosod yn erbyn mesurau perfformiad nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n caniatáu i'r corff llywodraethu osod targedau dros dro a thargedau terfynol ar gyfer y flwyddyn drosiannol nad ydynt yn seiliedig ar dargedau a osodwyd mewn blynyddoedd ysgol blaenorol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.